*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2024-2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Fe'i cyflwynwyd i Archwilio Cymru ar 31 Mai 2025.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano yn briodol
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol

3 Cyflwynwyd fersiwn ddrafft i Archwilio Cymru erbyn 31 Mai 2025 i gael eu hadborth, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

4 Mae'r Datganiad drafft ar gyfer eleni wedi'i atodi.

## ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Cyflwynwyd drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Mehefin 2025, ac ni wnaed unrhyw arsylwadau.

## ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft**

## CEFNDIR

7 Ers 2010/11 bu'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r cyfrifon statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad.

## GWYBODAETH

9 Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, ychydig iawn o ddylunio fydd ar y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol eleni.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn dangos y trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Dim |
| Cyfreithiol | Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae fframwaith llywodraethiant cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |